## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi ar gyfer sesiynau hyfforddi. Mae'n ymdrin â chasglu'r wybodaeth i greu cynlluniau hyfforddi a gwneud y paratoadau angenrheidiol.

Mae'r safon wedi ei hanelu at bobl sydd wedi cael hyfforddiant a phrofiad sylfaenol o hyfforddi ac sydd yn gallu cynnal sesiynau ar eu pen eu hunain.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a diogelwch mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen eich bod yn gallu adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. pennu diben y sesiwn hyfforddi
2. casglu gwybodaeth sydd wedi ei diweddaru ac yn gynhwysfawr a gwirio trwy gael cadarnhâd o ffynonellau dibynadwy
3. lle y bo'n briodol, defnyddio gwybodaeth o sesiynau hyfforddi blaenorol, gan ystyried adborth blaenorol a'ch gwerthusiad
4. cadarnhau bod anghenion y cyfranogwyr wedi eu nodi'n gywir ac yn cyd-fynd â'r wybodaeth a gasglwyd
5. cadw gwybodaeth y cyfranogwr yn gyfrinachol
6. paratoi ar gyfer sesiynau hyfforddi trwy ddatblygu cynlluniau hyfforddi sydd yn crynhoi'r wybodaeth a gasglwyd yn gywir
7. cynnwys nodau ac amcanion sydd yn berthnasol i anghenion a nodir mewn cynlluniau hyfforddi
8. sicrhau bod eich cynlluniau hyfforddi yn cynnwys cydbwysedd o weithgareddau, cyfarwyddiadau a hyfforddiant sydd yn addas i fodloni anghenion cyfranogwyr, y gamp/gweithgaredd a'r adnoddau sydd ar gael
9. cadarnhau bod eich cynlluniau hyfforddi a'ch trefniadau ar gyfer y gamp/gweithgaredd yn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch ac arfer da derbyniol
10. sicrhau bod eich cynlluniau hyfforddi yn cynnwys gweithgareddau sydd yn datblygu gwerthusiadau a chynlluniau gweithredu sesiynau hyfforddi blaenorol
11. sicrhau bod eich cynlluniau hyfforddi yn galluogi'r holl gyfranogwyr i gymryd rhan hyd eithaf eu gallu
12. sicrhau bod trefn ac amseriad gweithgareddau yn y sesiynau hyfforddi yn realistig
13. cofnodi cynlluniau hyfforddi yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol
14. cadarnhau bod y trefniadau yn galluogi nodau'r cynlluniau hyfforddi i gael eu bodloni
15. cadarnhau bod y cyfleusterau a'r cyfarpar priodol ar gael ar gyfer y sesiwn hyfforddi
16. nodi cyflyrau meddygol cyfranogwyr fyddai'n eu hatal rhag cymryd rhan yn y gamp/gweithgaredd yn ddiogel a gwirio'r rhain gydag awdurdod priodol
17. sicrhau bod trefniadau i alluogi'r rheiny â gofynion penodol nad yw'r hyfforddwr

yn gallu eu bodloni yn cael eu cyfeirio at berson/asiantaeth gymwys
18. sicrhau bod y cyfranogwyr yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol cyn y sesiwn hyfforddi

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. yr ystod o wybodaeth sydd ei hangen i baratoi ar gyfer sesiynau hyfforddi a ble gellir cael y wybodaeth yma
2. ffynonellau dibynadwy y gellir eu defnyddio i ddilysu gwybodaeth
3. dulliau o gasglu gwerthusiad gan gyfranogwyr a chydweithwyr sydd yn gysylltiedig â'r gamp/gweithgaredd
4. sut i hunan-werthuso a chynllunio ar gyfer gweithredu
5. anghenion tebygol pobl sydd yn cymryd rhan yn y gamp/gweithgaredd
6. y mathau o wybodaeth y dylid ei thrin yn gyfrinachol
7. anghenion penodol cyfranogwyr y gallai hyfforddwr ddod ar eu traws fel y diffinnir yn y diffiniad technegol o'r gweithgaredd
8. y wybodaeth y dylid ei chofnodi mewn cynlluniau hyfforddi
9. yr ystod o gyfarpar sydd yn briodol ar gyfer y sesiynau hyfforddi
10. rheolau a/neu reoliadau'r gamp/gweithgaredd
11. pwysigrwydd paratoi'r cyfranogwyr yn gorfforol ac yn feddyliol i ddechrau a gorffen y sesiwn hyfforddi
12. yr ystod o dechnegau, dilyniannau, gofynion sefydliadol, ystyriaethau ffisiolegol, sgiliau a dulliau o gyflwyno sy'n briodol i nodau'r sesiwn hyfforddi
13. math, dwysedd, hyd a threfn gweithgareddau sy'n briodol i'r ystod o gyfranogwyr
14. y ffordd y gallai trefniadau amrywio wrth weithio gyda phobl ag anghenion penodol sy'n briodol i'r gamp/gweithgaredd
15. yr arfer da derbyniol cyfredol yn y gamp/gweithgaredd gyda chyfeiriad penodol at gyfranogiad plant
16. yr ystod o gyflyrau meddygol y mae angen eu cyfeirio i awdurdod priodol fel y diffinnir yn y diffiniad technegol
17. y safonau diogelwch sydd yn ofynnol ar gyfer trin cyfarpar yn eich maes cyfrifoldeb yn cynnwys technegau codi
18. y gweithdrefnau ar gyfer cynnal diogeledd y cyfarpar
19. y gofynion iechyd a diogelwch a'r arfer da derbyniol yn y gamp/gweithgaredd

## Geirfa

gallai gwybodaeth sydd yn ofynnol i baratoi ar gyfer sesiynau hyfforddi gynnwys:

- anghenion cyfranogwyr
- niferoedd
- oed
- rhyw
- profiad
- cyflyrau meddygol
- adnoddau sydd ar gael
- math o amgylchedd

gallai ffynonellau gwybodaeth gynnwys:

- gwybodaeth flaenorol y cyfranogwyr
- cyfleusterau ac adnoddau
- gwybodaeth gan gyfranogwyr a sefydliadau

anghenion tebygol pobl sydd yn cymryd rhan mewn camp/gweithgaredd – chwaraeon; cymdeithasol; personol

LANCS82

Paratoi ar gyfer sesiynau hyfforddi

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCU127 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwyliwr Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau, Cadwraeth Amgylcheddol, Rheoli Pysgodfeydd |
| **Geiriau Allweddol** | hyfforddiant; sesiynau; gweithgareddau; cynllun |